Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 14eg o Fawrth 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Robert Jones.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Gordon Kilby

Cof 308 / Maw / 18 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 309 / Maw / 18 Cyfrifon i'w Talu

Cyfrifon i'w Talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne DD 604PP	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne DD604PlQ	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
CGGC (gwein cyflogres Chwefror)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
CGGC (ychwanegol)	£ 98.80		£ 98.80*
Pendragon (Tân Gwyllt 2018/19)	£ 4,500.00	£ 900.00	£ 5.400.00*
Hugh Gwynne (DD602PP)	£ 1,900.00	£ 380.00	£ 2,280.00*
Hugh Gwynne (DD658)	£ 85.00	£ 17.00	£ 102.00*
Trywydd (Dydd Gŵyl Dewi)	£ 52.00	£ 10.40	£ 62.40*
Fiona Collins (Dydd Gŵyl Dewi)	£ 195.00		£ 195.00
British Gas (nwy) dd	£ 48.12	£ 2.40	£ 50.52
British Gas (trydan) dd	£ 78.02	£ 8.90	£ 91.58
Treuliau'r Clerc (inc i'r peiriant argraffu)	£ 20.00		£ 20.00#

Bacs - * Siec - #
Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

Cof 310 / Maw / 18 Incwm a dderbyniwyd ers y 14eg o Chwefror 2018 hyd yn hyn

CSG (Grant Cymunedol)	£ 4,999.99
Llog Banc	£ 0.42

Cof 311 / Maw / 18 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 13.03/18)	£ 28,896.03
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 13/ 32/18)	£ 26,992.30
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00
Balans Cyfrif y Maer 28/02/18	£ 1,850.31

Cof 312 / Maw / 18 Materion Ariannol Eraill

1.Ceisiadau am Gymorth Ariannol

a) Cruse Sir Gâr. (Band B)	Cynigodd y Cyng. Eifion Davies rodd o £100 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.
b) Band Tref Llandeilo (Band C)	Cynigodd y Cyng. Edward Thomas rodd o £300 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
c) Ambiwlans Awyr Cymru (Band A)	Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins rodd o £200 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Cynigodd y Cyng. Lesley Prosser ddiwygiad o £100 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Cafodd y diwygiad ei drechu gan 4 pleidlais i 3 phleidlais.
d) Bobath Cymru (Band A)	Cynigodd y Cyng. Rob Jones rodd o £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 313 / Maw /18 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Ar y Gair, yn dweud eu bod yn codi'r pris, o 5c i 6c y gair, am gyfieithu o fis Ebrill 2018. Nodwyd.
2. Llinos Evans, Adolygiad o Gyllideb CSG. Nodwyd.
3. Hysbysiad LlCC am Grantiau Llywodraeth Leol o hyd at £5,000 ar gyfer partneriaethau cydweithredol gyda chynghorau cyfagos. Nodwyd.
4. Y Swyddog Technegol. Roedd Mr Davies wedi caffael dyfynbrisiau gan Stuart Quick, CSG, am dri darn o waith sydd angen eu cwblhau ym Mharc Le Conquet, cyn cwblhau'r ardal chwarae i blant.
   a) Adeiladu stepiau mynediad newydd, gan gynnwys rheiliau llaw, £2,500 ac eithrio TAW.
   b) Adleoli giât bresennol y cwrt tenis a gosod giât newydd, £1,950 ac eithrio TAW.
   c) Gosod arwyneb tarmac newydd yn yr ardal chwarae ac atgyweirio rhannau o'r cwrt, £2,600 ac eithrio TAW.

   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins fod y stepiau mynediad a'r gwaith tarmac yn cael eu cwblhau cyn gynted ag sy'n bosib. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid. Byddai'r gwaith o adleoli'r giât yn cael ei awdurdodi yn y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai'r Cyng. Edward Thomas yn ysgrifennu at BT, mewn perthynas â chyflwr gwael y ffordd sy'n arwain i'r Parc. Byddai'n rhoi gwybod i CSG hefyd am yr wybodaeth o roddwyd i'r Clerc gan Stuart Quick.
4. Rhoddodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad bras ar Neuadd y Sir. Nodwyd.

Cof 314 / Maw / 18 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies y byddai yna oblygiadau o ran cost wrth atgyweirio'r pibau sydd wedi byrstio yn y pafiliwn Tenis. Nodwyd.

Cof 315 / Maw / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.54yh.